

CYNGOR BRO PONTARFYNACH

Nos Iau 25ain Mai, 2017 am 8.00 y.h. yn dilyn y Cyfarfod Blynyddol

Cynhaliwyd cyfarfod yn Ysgol Mynach gyda'r canlynol yn bresennol:

Brython Davies (Cadeirydd) Eluned Evans, Jane Hopkins, Phil Lloyd, a'r Cyng. Rhodri Davies.

1. **YMDDIHEURIADAU**

Rhodri Jenkins

2. **DATGELU BUDDIAU PERSONOL**

Atgoffwyd yr aelodau yr angen i ddatgan buddiau personol pe byddai'r sefyllfa'n codi.

3. **MATERION PERSONOL**

Trosglwyddwyd llongyfarchiadau i'r Cynghorydd Rhodri Davies ar ei ail ethol fel Cynghorydd Sir, Ward Melindwr. Dymunwyd diolchiadau i Alun Jenkins, James Raw ac Elise Powell cyn Gynghorwyr Bro am eu gwasanaeth i'r Cyngor Bro ar hyd y blynyddoedd. Cytunwyd i'r Clerc ddanfôn llythyron o werthfawrogiad i'r tri.

4. **COFNODION 6ed Ebrill, 2017**

Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir.

Cynigiwyd cywirdeb gan Jane Hopkins ac eiliwyd gan Phil Lloyd.

5. **MATERION YN CODI O'R COFNODION**

(a) Safle ail-gylchu

Sefyllfa i weld yn gwella yn gyffredinol ond angen cadw llygad.

(b) Cornel Tyn Rhyd

Dim diweddariad pellach.

(c) Y ffordd fynydd o Gwmystwyth i Raeadr

Dim gweithred pellach a phenderfynwyd y byddai'r Clerc yn cysylltu ymhellach gyda Chyngor Sir Powys i ymholi am ddiweddariad.

(ch) Y materion canlynol yn parhau angen sylw Cyngor Sir Ceredigion: Y Clerc i ddilyn ian:

Y ffordd yn rhoi ar y llaw dde wrth fynd mewn i New Row o ochr Lletysynod.

Yr angen i adnewyddu arwydd 'Ildiwch/Stop' ar y gyffordd yng Nghwmystwyth o gyfeiriad Rhiw Ysgoldy Coch gan y tybir ei fod wedi ei ddwyn.

Nifer o ddraeniau angen gwaghau yn yr ardal yn enwedig yn Nhrisant a Chwmystwyth.

Twill dwfn yn y ffordd ger Carreg Naw

Tyllau yn y Ffordd tu ôl y Fferm Pentre, Cwmystwyth ar y ffordd Rhos Perran – deallir fod y gwaith wedi gwblhau bellach.

- (d) Dwr yn parhau i redeg allan o'r clawdd ger Rose Cottage, gyferbyn a'r Capel ym Mhontarfynach ac yn rhedeg ar hyd y ffordd.
Dim gweithred hyd yn hyn, yr angen i gadw llygad ar y sefyllfa.
- (dd) Wal Pontartwll, Cwmystwyth.
Y gwaith bellach wedi ei gwblhau.
- (e) Golau Stryd
Derbyniwyd nodyn ysgrifenedig gan Gyngor Sir Ceredigion yn rhoddi cadarnhad fel perchnogion tir y medrir lleoli'r golau stryd ar dir y Cyngor Sir. Ni dderbyniwyd pris hyd yn hyn am ddodi'r Golau Stryd mewn lle ond adroddodd y Clerc ei bod ar ddeall fod yna Grant Cymunedol ar gael gan Gyngor Sir Ceredigion y medrir gwneud cais ar gyfer hyd at 50% o gostau doddi Golau Stryd i fewn ym Mhontarfynach. Cytunwyd i symud ymlaen gyda'r cais am grant unwaith y gwneir penderfyniad o dderbyn pris addas gan gyflenwr.
- (f) Toiledau ym Mhontarfynach
Trafodwyd sefyllfa ymhellach o fod y toiledau yng nghau dros fisoedd y Gaeaf. Cytunwyd i ymchwilio ymhellach i gostau i'w cadw ar agor yn ystod y Gaeaf gan drafod yn y cyfarfod nesaf.
- (ff) Falf Dwr ger y Gofgolofn ym Mhontarfynach
Er y deallir bod y Bwrdd Dwr am ail-wneud gwaith ar y falf dwr mae'r sefyllfa'n parhau yr un peth gyda dwr yn croni a'r ffordd wedi suddo. Angen cadw llygad ar y sefyllfa.
- (ng) Mainc yng Nghwmystwyth
Derbyniwyd prisiau gan ddau wahanol gwmni am gyflawni mainc yng Nghwmystwyth a phenderfynwyd archebu mainc eistedd am bris o £525.00 + TAW (£360 + £80 am ddodi enw + £30 am goesau estynedig i'w lleoli i'r ddaear + £55 costau cludiad + TAW) wrth gwmni SLPW. Cynigiwyd y penderfyniad gan Phil Lloyd ac eiliwyd gan Jane Hopkins.
- (g) Loriau yn teithio drwy Bontarfynach
Dim manylion pellach i'w hadrodd.
- (h) Graenu'r B4574 o Bontarfynach i Gwmystwyth
Yn y cyfarfod diwethaf cytunwyd i ohirio trafodaethau hyd yn dilyn yr Etholiadau. Penderfynwyd ymchwilio am ffigurau erbyn y cyfarfod nesaf er mwyn cael trafodaethau cychwynnol.
- (i) Cloddiau angen sylw yng Nghwmystwyth
Dim manylion pellach wrth y Cyngor Sir am y ddau glawdd yng Nghwmystwyth sy'n cwmpo i'r ffordd:
Ger eiddo Gwarallt a hefyd wrth ymyl Bryneithrin ble y bu aelod o'r cyhoedd gael niwed i'w gerbyd ger y Bryneithrin.
- (l) Croesffordd Lletysynod – mynedfa C1022 gyda U1175 a C1043 ble mae angen gwella gwelededd i'r chwith wrth deithio o gyfeiriad Trisant

- (m) Rhan 3 Llwybr Troed ym Mhontarfynach
Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn manylion gan Gyngor Sir Ceredigion na fuodd y cais grant o ran yr uchod yn llwyddiannus.
 - (n) Cerrig Milltir yn Ardal Pontarfynach
Adroddodd y Clerc ei bod wedi gwneud ymholiadau gyda Cyngorau Cymuned eraill ar sut yr adnewyddwyd Cerrig Milltir o fewn eu hardaloedd a deallwyd nad oedd angen triniaeth arbenigol. Yn dilyn trafodaeth bellach yn y Cyngor Bro cytunwyd y byddid yn ddoeth cysylltu gyda CADW i sicrhau y medrir mynd ati i baentio'r Cerrig Milltir dan sylw gan y deallir fod cadwraeth CADW ynghlwm ar un ohonynt.
 - (o) Parcio tu allan i Westy'r Hafod
Ni dderbyniwyd ymateb wrth y Cyngor Sir a thrafodwyd bod cerbydau yn parhau i barcio mewn manau peryglus gan gynnwys wrth ymyl y palmant isel sy'n anghyfleus ac o bosibl yn anghyfreithiol hefyd. Y Clerc i gysylltu eto gyda'r Cyngor Sir a hefyd i drafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf .
 - (p) Tyllau yn y Ffordd
Adroddwyd ar ddau dwll dwfn sydd wedi ymddangos yn y ffordd sydd angen tynnu sylw Cyngor Sir Ceredigion:
Ger y Gofgolofn ym Mhontarfynach ac wrth ymyl y Gweithfeydd Mwyn ar y ffordd fynydd yng Nghwmystwyth.
6. CYLLID
- (a) Derbyniwyd anfoneb wrth Glyn Jones am waith o leoli Sedd Eistedd newydd wrth ymyl y Llyn yn Nhrisant. Cytunwyd i dalu'r anfoneb o £60.00. Cynigiwyd y taliad gan Jane Hopkins ac eiliwyd gan Phil Lloyd.
 - (b) Yswiriant Cyngor Bro Pontarfynach
Derbyniwyd wybodaeth wrth Zurich Insurance am adnewyddi'r Yswiriant. Cytunwyd i adnewyddu'r yswiriant gyda Zurich am swm o £495.77. Cynigiwyd y taliad gan Eluned Evans ac eiliwyd gan Phil Lloyd
7. CYFRIFON 2016/17
- Adroddodd y Clerc bod Gwyn Evans wedi cwblhau archwiliad mewnol o'r Cyfrifon am 2016/17 a darllenwyd adroddiad gan Mr. Evans yn cadarnhau bod y cyfrifon mewn trefn. Bydd y Clerc yn danfon y daflen gyfrifon ynghyd â dogfennaeth berthnasol i'r Archwilydd Allanol.
- Cytunwyd i dalu anfoneb Gwyn Evans o £40.00 am gwblhau'r gwaith. Cynigiwyd y taliad gan Jane Hopkins ac eiliwyd gan Eluned Evans.
8. Cais Cynllunio A170351. Atgyweirio ac adfer y Bont Newydd. Hafod Mansion, Forestry Commission, Pontrhydygroes, Ystrad Meurig.
Trafodwyd yr uchod a phenderfynwyd ymateb i ymholiad Cyngor Sir Ceredigion nad oedd gwrthwynebiad gan aelodau o Gyngor Bro Pontarfynach i'r cais.

9. Derbyn Model Broctocol Datrysiadau Lleol ar gyfer Cyngorau Tref a Chymuned wrth Un Llais Cymru
Cyflwynwyd yr uchod i'r Aelodau a phenderfynwyd ei dderbyn fel Protocol i'w ddilyn pe byddai achosion o gwynion yn codi.
10. Derbyn Polisi Cyfryngau Cymdeithasol
Cyflwynwyd y ddogfen uchod i'r Aelodau a dderbyniwyd gan Un Llais Cymru a phenderfynwyd derbyn y Polisi ar gyfer Cyngor Bro Pontarfynach.
11. Gohebiaeth
Derbyniwyd gohebiaeth gan Adran Llywodraethwyr, Cyngor Sir Ceredigion yn nodi gan nad yw James Raw bellach yn Gynghorydd Cymuned fod ei dymor ar Gorff Llywodraethol Ysgol Gynradd Gymunedol Mynach wedi dod i ben a bod angen enwebi Cynghorydd Cymuned newydd i fod ar y Corff Llywodraethol. Penderfynwyd gohirio enwebi cynrychiolydd newydd hyd bydd y seddi gwag ar y Cyngor Cymuned wedi eu llenwi drwy'r broses cyfethol.
12. **UNRHYW FATER ARALL**
- (a) Arwydd ar y ffordd i Aberffrd – mae angen sylw ar yr arwydd yn y lleoliad yma.
- (b) Tynnwyd sylw at gwynion a dderbyniwyd gan aelodau'r cyhoedd am arwydd ffordd sydd wedi guddio yn y gwrych ar y ffordd B4343 i gyfeiriad yr Ysgol ym Mhontarfynach o'r Gofgolofn, gyferbyn ag Arch View. Mae cerbydau uchel yn medru derbyn niwed i'w cerbydau pe tynnir mewn gormod i'r dde wrth ddod i gwrdd gyda cherbyd arall gan fod y ffordd yn gul. Cytunwyd i dynnu sylw'r Cyngor Sir at y pryderon am yr arwydd.
- (c) Ymholwyd a fyddai modd cael bin sbwriel wedi leoli wrth yr hysbysfwrdd yng Nghwmystwyth gan fod nifer yn eistedd ar y sedd yn y lleoliad. Y Clerc i wneud ymholiadau.
13. **DYDDIAD CYFARFOD NESAF**
- Cyfarfod nesaf i'w gynnal ar 6ed o Orffennaf 2017 yn Ysgol Mynach am 7.30 y.h.